Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rob Donovan

Clerc y Pwyllgor

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

7 Mehefin 2021

Annwyl Rob,

Rwyf yn atodi ein hymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Adferiad Tymor Hir o COVID-19.

Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei adroddiad a'i waith caled dros y 5 mlynedd diwethaf, yn enwedig yn ystod pandemig COVID-19, sydd wedi bod yn gyfnod heriol i bob un ohonom.

Atodir ymateb Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

**Lee Waters AS/MS**
Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

**Argymhelliad 1**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

***Rhaid i Lywodraeth Cymru fanteisio ar y cynnydd mewn gweithgarwch entrepreneuraidd a rhoi anogaeth i gychwyn busnesau fel ffordd o ysgogi'r adferiad economaidd. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y momentwm cadarnhaol, dylai adolygu'r cymorth sydd ar gael, ac edrych ar enghreifftiau o arfer gorau ledled y DU ac yn rhyngwladol.***

**Ymateb: Derbyn**

Yn amodol ar ddewisiadau Llywodraeth newydd, bwriedir adolygu'r cymorth busnes sy'n cael ei ddarparu.

**Goblygiadau Ariannol –** mae cyllid ERDF yn talu'n rhannol am y ddarpariaeth ar hyn o bryd, ac felly mae angen sicrhau cyllid i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen.

**Argymhelliad 2**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gall y byd academaidd gefnogi arweinyddiaeth busnesau bach yn y ffordd orau i gyfrannu at adferiad economaidd Cymru trwy ddatblygu eu potensial ar gyfer twf yn y dyfodol a chefnogi cynhyrchiant, a pha fesurau pellach y gellir eu cymryd i gefnogi hyn. Un enghraifft o hyn y dylai ei hystyried wrth ddatblygu ei dull gweithredu yw'r Rhaglen Arweinyddiaeth Busnesau Bach.***

**Ymateb: Derbyn**

Yn amodol ar ddewisiadau Llywodraeth newydd, bwriedir adolygu'r cymorth busnes sy'n cael ei ddarparu.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim goblygiadau ariannol i archwilio pa ddarpariaeth sydd ei hangen.

Goblygiadau ariannol os argymhellir cyflwyno darpariaeth newydd.

**Argymhelliad 3**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Gan ei bod yn debygol y bydd cynnwrf economaidd yn arwain at siociau economaidd mwy rheolaidd mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ar greu cymunedau sy'n gydnerth yn economaidd. Dylai hyn gynnwys canolbwyntio ar y gallu i addasu i siociau rhagweladwy allweddol yn y dyfodol fel y newid yn yr hinsawdd***

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi, a gyhoeddwyd ar 23 Chwefror, yn cydnabod pwysigrwydd cryfhau'r economi. Mae cefnogi ymaddasiad i liniaru effeithiau ac i wireddu cyfleoedd siociau yn y dyfodol yn un o feysydd ffocws y pum llusern.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

**Argymhelliad 4**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru yn cael digon o adnoddau i barhau â'u rolau allweddol yn yr ymdrechion adfer ac ail-greu.***

**Ymateb: Derbyn**

Mae Gweinidogion wedi cytuno i roi benthyg £270m o gyfalaf i Fanc Datblygu Cymru yn Ch4 2020-21 i fod yn sail i fenthyciadau busnes a buddsoddiadau ecwiti drwy Gronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru drwy gydol yr adferiad a hyd at 2030.

Mae £200m arall o gymorth ychwanegol i fusnesau eisoes wedi cael ei glustnodi yng Nghyllideb Derfynol 2021-22 – y Llywodraeth nesaf fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol ynghylch hyn.

**Goblygiadau Ariannol -** Mae'r gost o £270m wedi'i thalu o Linell Wariant 3758 yn y Gyllideb sef Cronfeydd Cyllid Busnes ym mlwyddyn ariannol 2020-21. Rhaid asesu'r math hwn o fenthyciad o dan safonau cyfrifyddu (IFRS 9) ar gyfer amhariad posibl 'Colled Credyd Disgwyliedig' (ECL) bob blwyddyn.

**Argymhelliad 5**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried monitro a gwerthuso o ddechrau pob buddsoddiad neu brosiect newydd ar gyfer adferiad. I wneud hyn dylent adeiladu ar y dull a ddefnyddir yn adroddiad Dirnad Economi Cymru ar ei hymyriadau Covid-19 a gwneud gwaith monitro a gwerthuso manwl o ddechrau prosiectau a buddsoddiadau newydd i gefnogi adferiad. Dylai hyn gynnwys nodau, amcanion a thargedau cyhoeddedig buddsoddiadau, a chyhoeddi data wedi'i ddadgyfuno yn ôl rhanbarthau, sectorau a nodweddion cydraddoldeb lle y bo'n briodol.***

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wreiddio monitro a gwerthuso mewn prosiectau a buddsoddiadau newydd i gefnogi'r adferiad. Bydd y dull gweithredu ym mhob achos yn cael ei bennu drwy gyngor a thrafodaethau â dadansoddwyr Llywodraeth Cymru, yn yr un modd â dull gweithredu gwerthusiad Dirnad Economi Cymru o'r Gronfa Cadernid Economaidd.

**Goblygiadau Ariannol –** Goblygiad ariannol i sicrhau y bydd cyllid ar gyfer pob un o'r gweithgareddau newydd yn cynnwys digon o arian ar gyfer gwerthuso a bod digon o staff dadansoddol ar gael i gynllunio ac i reoli gweithgareddau gwerthuso.

**Argymhelliad 6**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a phrifysgolion Cymru i adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ystod y pandemig i wella amseroldeb ac ehangder casglu data economaidd ar gyfer Cymru***

**Ymateb: Derbyn**

Bydd dadansoddwyr Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnal trafodaethau rheolaidd â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i sicrhau bod datblygiadau gyda data economaidd (gan gynnwys yr Arolwg Canfyddiadau ac Amodau Busnes newydd a Dangosyddion Cyflymach) yn parhau i fonitro effeithiau'r pandemig a'r adferiad economaidd yng Nghymru. Mae swyddogion hefyd yn ymgysylltu'n barhaus â Dirnad Economi

Cymru. Mae Dirnad Economi Cymru yn coladu ac yn dadansoddi data i greu gwybodaeth annibynnol, gadarn a ddibynadwy er mwyn ein helpu i ddeall economi Cymru yn well. Mae Dirnad Economi Cymru yn gydweithrediad rhwng Banc Datblygu Cymru, Ysgol Fusnes Caerdydd a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 7**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Rhaid i sgiliau fod wrth wraidd y Rhaglen Lywodraethu nesaf, gan gydnabod y cysylltiad rhyngddyn a chynhyrchiant a ffyniant, er mwyn ysgogi'r adferiad.***

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Ar hyn o bryd mae'r Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi, a gyhoeddwyd ar 23 Mawrth 2021, yn nodi bod sgiliau a chyflogaeth yn un o'r pum llusern ar gyfer cyflawni adferiad economaidd yn y tymor canolig a'r tymor hirach.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 8**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Rhaid i Lywodraeth Cymru fapio darpariaeth sgiliau Cymru ar lefel systemau i ddatblygu dull cwbl integredig a chydgysylltiedig o ymdrin â sgiliau yng Nghymru. Rhaid i'r dull systemau cydgysylltiedig hwn hefyd greu system ffurfiol, hawdd i'w deall a thryloyw i ddiwydiant, cyrff dyfarnu a darparwyr fynd at ei gilydd a chydweithio i ddatblygu a diweddaru cymwysterau sgiliau. Dylai hefyd fynd i'r afael â'r canlynol:***

- ***Sut y mae'r gwahanol ranbarthau economaidd, a buddsoddiadau rhanbarthol fel bargeinion dinesig, yn cysylltu â'i gilydd ar gyfer darpariaeth sgiliau;***

- ***Sut y bydd cyllid ail-greu'n cefnogi datblygiad sgiliau ac fel arall hefyd.***

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi dull gweithredu strategol a rhanbarthol o ymdrin â sgiliau, drwy'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, er mwyn darparu darlun strategol a rhanbarthol o sgiliau sy'n cael ei arwain gan bartneriaeth. Mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn canfod beth yw'r blaenoriaethau o ran sgiliau ar sail gwybodaeth am y farchnad lafur sy'n seiliedig ar anghenion cyflogwyr ac mae eu cynlluniau strategol tair blynedd yn gweithio'n agos gyda strwythurau'r Fargen Twf a Dinas-Ranbarth i ganfod anghenion sgiliau.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 9**

***Mae'r pwyllgor yn argymell***

***Dylai Llywodraeth Cymru gynorthwyo Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ailedrych ar eu cynlluniau sgiliau yng ngoleuni'r pandemig a buddsoddi mewn offeryn gwybodaeth am y farchnad lafur i sicrhau bod y partneriaethau'n gallu cyflawni eu tasg a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn well. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd nodi rôl glir ar gyfer Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn y dull cydgysylltiedig a amlinellir o dan Argymhelliad 8.***

**Ymateb: Derbyn**

Yn 2019, cyhoeddodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ei adroddiad yn dilyn ei ymchwiliad i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i'r argymhellion a'r camau gweithredu ym mis Rhagfyr 2019 ac ymrwymodd i bennu cyfeiriad strategol a chylch gwaith newydd wrth symud ymlaen. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar rôl ag iddi ffocws newydd ar gyfer 2020-21 i adlewyrchu'r dirwedd economaidd sy'n newid ac mae wedi blaenoriaethu gwaith sy'n ymwneud â'r ymateb i'r pandemig a'r effaith ar sgiliau a'r farchnad lafur. Mae Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru hefyd wedi cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ddechrau ymarfer caffael ar gyfer Adnoddau Dadansoddi i helpu i gynllunio darpariaeth ym mlwyddyn ariannol 2021-22.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 10**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Rhaid i Lywodraeth Cymru gefnogi busnesau bach i fuddsoddi mewn arloesi er mwyn dal i fyny i'r man lle byddent pe na bai pandemig wedi bod.***

**Ymateb: Derbyn**

**Goblygiadau Ariannol –** Prif ffynhonnell cyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau bach i fuddsoddi mewn arloesedd yw ein cyfres SMART o raglenni. Mae'r rhain yn cael eu hariannu gan yr UE 2015-20 + 3 blynedd = £68m. Bydd y Pwyllgor yn gwybod ei bod hi'n anodd dod o hyd i gyllid yn lle hwn a'n bod yn edrych ar opsiynau gwahanol.

**Argymhelliad 11**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***O ystyried pwysigrwydd sylfaenol ymchwil ac arloesi i ffyniant Cymru, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu'r cyllid i roi gweddill argymhellion Adolygiadau Reid a Diamond, gan gynnwys creu Cronfeydd Dyfodol Cymru a Dewi Sant, ar waith yn llawn, a hynny fel mater o frys.***

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Roeddem wedi comisiynu adroddiad gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd sy'n tanlinellu'r cysylltiad rhwng buddsoddi mewn ymchwil a datblygu, perfformiad economaidd ac anghydraddoldebau llesiant. Roedd hyn yn sail i'n Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol, sy'n "cydnabod effaith drawsnewidiol ymchwil a datblygu ac arloesi".

Nid yw Llywodraeth y DU wedi buddsoddi yn ein fframwaith ac nid yw ei chynlluniau llawn ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn hysbys o hyd. Nid yw cronfeydd adnewyddu cymunedol a lefelu Llywodraeth y DU yn rhoi digon o sylw i ymchwil ac arloesi yn ein barn ni ac mae'n osgoi llywodraeth ddatganoledig yn llwyr a hithau'n adeg pan fo arbenigwyr yn galw am ragor o ddatganoli er mwyn lefelu (Seminar Blavatnik Tachwedd 2020).

Rydym yn parhau i ariannu prifysgolion a busnesau gyda chyllid Ewropeaidd tan 2023. Mae hyn yn cynnwys prosiectau sydd â thargedau i gyflwyno cyllid cystadleuol, yn ysbryd Cronfa Dyfodol Cymru. I gydnabod yr angen i feddalu ymyl dibyn y DU, mae WEFO wedi symud cyllid i ymchwil ac arloesi pryd bynnag y bo modd.

Mae CCAUC yn gweithio gyda Phrifysgolion Cymru ar gynllun cydlynu pellach i helpu i gipio cyllid cystadleuol.

**Goblygiadau Ariannol –** Bydd – i'w cadarnhau – yn amodol ar ystyriaethau a thrafodaethau parhaus gyda Llywodraeth y DU

**Argymhelliad 12**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Rhaid i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn adferiad gwyrdd uchelgeisiol a thrawsnewidiol, gan flaenoriaethu buddsoddiad mewn seilwaith gwyrdd, seilwaith naturiol a datgarboneiddio economi Cymru. O ystyried datganiad Llywodraeth Cymru ei bod hi'n argyfwng ar yr hinsawdd, dylai nodi cynlluniau trawsbynciol ar raddfa ddigonol i ymateb i'r her hon.***

**Ymateb: Derbyn**

Er mwyn i'r adferiad ar ôl pandemig y Coronafeirws fod yn wyrdd, rhaid iddo fynd i'r afael â heriau amgylcheddol cyffredinol:

- **yr Argyfwng Hinsawdd:** drwy ddatgarboneiddio a chynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd;
- **y dirywiad mewn bioamrywiaeth:** drwy wrthdroi'r dirywiad yng Nghymru a lleihau ein heffaith ar fioamrywiaeth y tu allan i Gymru; a,
- **Cynhyrchu a defnyddio mewn modd anghynaliadwy:** drwy wella effeithlonrwydd adnoddau, defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy a symud at economi sy'n fwy cylchol.

Mae camau sylweddol eisoes wedi cael eu cymryd i flaenoriaethu buddsoddiad yn y meysydd hyn, gan gynnwys seilwaith gwyrdd a naturiol a datgarboneiddio economi Cymru. Mae hyn yn cynnwys camau sy'n cael eu cymryd ar draws y Llywodraeth, gyda buddsoddiadau allweddol i gefnogi ac i hyrwyddo teithio llesol, datgarboneiddio'r GIG ac effeithlonrwydd ynni mewn ysgolion a chartrefi.

Yn 2021/22, byddwn hefyd yn buddsoddi £12m arall i sicrhau bod prosiectau effeithlonrwydd ynni yn y sector cyhoeddus ac ynni adnewyddadwy yn dwyn ffrwyth. Bydd y buddsoddiad hwn yn cael ei gefnogi gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a bydd yn gyfuniad o grantiau, benthyciadau llog isel, gweithgareddau peilot ynni a Chynllunio Ynni Ardal Leol manwl, a fydd yn nodi llwybr i ddatgarboneiddio'r system ynni ar lefel leol er budd lleol.

Yn 2021/22 rydym yn buddsoddi dros £30m yn ein seilwaith naturiol gan gynnwys y Goedwig Genedlaethol, mawndiroedd, rhwydweithiau safleoedd gwarchodedig, Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Ar ben hynny, er mwyn mynd i'r afael â chynhyrchu a defnyddio mewn modd anghynaliadwy, yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Mwy nag Ailgylchu*, y strategaeth economi gylchol i sicrhau bod adnoddau'n dal i gael eu defnyddio ac i osgoi gwastraff.

**Goblygiadau Ariannol -** Yn 2021/22, byddwn hefyd yn buddsoddi £12m arall i sicrhau bod prosiectau effeithlonrwydd ynni yn y sector cyhoeddus ac ynni adnewyddadwy yn dwyn ffrwyth.

Yn 2021/22 rydym yn buddsoddi dros £30m yn ein seilwaith naturiol gan gynnwys y Goedwig Genedlaethol, mawndiroedd, rhwydweithiau safleoedd gwarchodedig, Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

**Argymhelliad 13**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i gyflymu prosiectau seilwaith gwyrdd sy'n barod i gychwyn er mwyn rhoi hwn i greu swyddi ar ddechrau'r adferiad.***

**Ymateb: Derbyn**

Mae swm sylweddol o gyllid wedi cael ei ddyrannu i brosiectau seilwaith gwyrdd fel rhan o'r gwaith i gefnogi adferiad gwyrdd o ganlyniad i bandemig y coronafeirws.

Fel y nodir yn *Mwy nag Ailgylchu*, mae cysylltiad hollbwysig rhwng yr economi gylchol a'n gallu i wella cadernid ar yr un pryd â chyflawni canlyniadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol gwell. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cefnogi 180 o brosiectau arloesol ym mhob rhan o Gymru drwy'r Gronfa Economi Gylchol, gan ddod â chymunedau at ei gilydd, diogelu a chreu swyddi a gwella'r amgylchedd. Yn y flwyddyn ariannol nesaf, bydd rhagor o gymorth ar gael, gyda dros £80m ar gael i fusnesau, mentrau cymdeithasol a chyrff cyhoeddus yng Nghymru i gefnogi'r broses o bontio i economi gylchol.

Y llynedd, roedd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwahodd Syr David Henshaw, Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru, i arwain Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adferiad Gwyrdd. Un o'u hamcanion oedd canfod blaenoriaethau gweithredu ar gyfer Cynllun Adfer Llywodraeth Cymru yn sgil Covid-19. Gofynnodd y Grŵp am gynigion yn ystod haf 2020, gan gyhoeddi *Adferiad Gwyrdd: Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu* ar 3ydd Rhagfyr 2020. Gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i nodi cynigion yn yr adroddiad *Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu* y gellid eu cyflymu eleni. Mae Llywodraeth Cymru wedi

ymrwymo £1.1m i ariannu pecyn o brosiectau i gefnogi bioamrywiaeth, gyda £4.3m arall wedi'i ymrwymo i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'w ddosbarthu ymlaen i Awdurdodau Lleol ar gyfer prosiectau sy'n cyflawni yn erbyn pum blaenoriaeth yr adroddiad *Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu*.

Ar ben hynny, mae Polisi Adnoddau Naturiol hirsefydlog Llywodraeth Cymru yn cynnwys yr ymrwymiad i sicrhau bod buddsoddiad mewn prosiectau seilwaith yn cynyddu manteision ehangach fel creu swyddi lleol, cyfleoedd hyfforddi a chefnogi symud at economi garbon isel sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon.

**Goblygiadau Ariannol –** Fel uchod

**Argymhelliad 14**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i ddefnyddio cyllid ar gyfer sgiliau i gefnogi swyddi gwyrdd, a chymryd camau cadarn i ddadansoddi a mynd i'r afael â'r gwahaniaethau rhwng anghenion y presennol a'r dyfodol a'r ddarpariaeth sgiliau bresennol.***

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i barhau yn eu rôl i ganfod blaenoriaethau sgiliau sy'n seiliedig ar wybodaeth am y farchnad lafur, ar sail anghenion cyflogwyr, a byddant yn parhau i ddarparu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am bob maes sgiliau, gan gynnwys sgiliau i gefnogi swyddi gwyrdd. Yn "Mwy nag Ailgylchu", ein strategaeth yw gwireddu'r economi gylchol yng Nghymru. Rydym yn dweud y bydd angen i ni wneud y canlynol:

- "Buddsoddi mewn sgiliau gwyrdd fel eco-ddylunio, ailddefnyddio, trwsio, ailweithgynhyrchu ac ailbrosesu i gefnogi datblygiad gweithlu Cymru. Gweithio gyda chyrff proffesiynol perthnasol i sicrhau eu bod yn achredu hyfforddiant a chymwysterau sy'n gysylltiedig ag economi gylchol a gynigir gan ddarparwyr hyfforddiant yng Nghymru, yn enwedig ein prifysgolion a'n colegau. Ceisio rhoi sylw i unrhyw fylchau mewn hyfforddiant economi gylchol, datblygu sgiliau a chymwysterau. Mae cyfateb prentisiaethau i anghenion economi Cymru yn ganolog i'n polisi sgiliau, a byddwn yn parhau i edrych ar rôl prentisiaethau wrth gau unrhyw un o'r bylchau hynny. Drwy wneud hynny, rydym yn cydnabod bod diogelwch yn ystyriaeth allweddol, yn enwedig o ran ailddefnyddio ac atgyweirio cyfarpar electronig."

- “Cefnogi datblygiad sgiliau gwyrdd yn ein gweithlu, gan gynnwys effeithlonrwydd adnoddau’r economi ddigidol, modelau busnes economi gylchol, coedwigaeth a phren, atgyweirio, ailweithgynhyrchu a defnyddio deunyddiau cyfansawdd.”

- “Gweithio i roi cymorth ar gyfer datblygu addysg a sgiliau sy’n ymgorffori sgiliau cylchol craidd fel effeithlonrwydd adnoddau a dylunio ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion, hyfforddiant, cymwysterau a phrentisiaethau.”

Yn y Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu’r Economi, a gyhoeddwyd ar 23 Mawrth 2021, mae’n cydnabod rôl allweddol cyflogadwyedd a sgiliau o ran ategu uchelgeisiau datgarboneiddio Cymru.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 15**

**Mae’r pwyllgor yn argymell**

***Fel rhan o unrhyw fuddsoddiad mewn seilwaith dylai Llywodraeth Cymru ystyried a allai’r seilwaith hwn fod yn “wyrdd” - gan ddefnyddio datrysiad amgylcheddol i’r mater y mae’r seilwaith yn mynd i’r afael ag ef.***

**Ymateb: Derbyn**

Ym mis Rhagfyr 2020, amlinellodd y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd y gwaith sy’n cael ei wneud ar hyn o bryd yng nghyswllt cynlluniau tymor hirach Llywodraeth Cymru, drwy ddatblygu olynydd i Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

Bydd y strategaeth newydd yn seiliedig ar y pedair egwyddor llesiant, gydag ymrwymiad y bydd ein hymateb i’r argyfwng hinsawdd yn ganolog iddi, gan gynnwys ein hymrwymiad i Sero-net a mynd i’r afael â’r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Mae’r argymhelliad hwn hefyd yn cysylltu ag elfennau allweddol o’r fframwaith deddfwriaeth sylfaenol presennol, gan gynnwys adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy’n golygu ei bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hefyd yn cyd-fynd â Pholisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru, sy’n ymrwymo i edrych ar atebion seilwaith naturiol neu “wyrdd” i leihau risg hinsawdd a darparu gwasanaethau ecosystem ehangach ar yr un pryd â diogelu amrywiaeth fiolegol ac iechyd ecosystemau.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 16**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth Cymru roi cefnogaeth i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol trwy unrhyw arian adfer y mae'n ei roi, a dylai gefnogi ymgyrch i gynyddu taliad y Cyflog Byw Gwirioneddol.***

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn annog pob cyflogwr sy'n gallu fforddio talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i wneud hynny. Talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yw'r ffordd orau o sicrhau bod gweithwyr yn gallu talu eu costau byw ac mae cyflogwyr yn elwa gan fod hyn yn gwella cymhelliant staff, cyfraddau cadw staff ac enw da corfforaethol.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr heriau sydd ynghlwm wrth fforddiadwyedd hyn i rai cyflogwyr – a lle bo'n bosibl, hoffem eu gweld yn gweithio tuag at dalu'r cyflog byw gwirioneddol. Mae Cynnal Cymru, sef y corff achredu ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol yng Nghymru, yn gwneud gwaith gwerthfawr iawn drwy hyrwyddo dealltwriaeth o'r Cyflog Byw Gwirioneddol a'r nifer sy'n ei dalu.

Rydym wedi cynnig cymorth ariannol i Cynnal Cymru i'w helpu gyda'i waith ac yn enwedig i gefnogi creu gwefan benodol i fod yn hyb ar gyfer y gwaith i hyrwyddo achrediad Cyflog Byw Gwirioneddol.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 17**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Cyn diwedd y Senedd hon, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'n gyhoeddus pa gynnydd a wnaed o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg.***

**Ymateb: Derbyn**

Roedd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi rhoi Datganiad Llafar ar 9 Chwefror 2021 a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Senedd am y cynnydd o ran cyflawni gwaith teg Cymru https://record.assembly.wales/Plenary/11178#A64457 .

Rydym hefyd yn ymgynghori ar hyn o bryd ar ein Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus sydd, ymysg pethau eraill, yn ceisio rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod amcanion gwaith teg, cymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny ac adrodd yn flynyddol ar y cynnydd.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 18**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth nesaf Cymru roi arwydd cychwynnol o sut y bydd yn mynd i'r afael â materion gwaith teg sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y pandemig.***

**Ymateb: Derbyn**

Roedd y Datganiad Llafar y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol ar 9 Chwefror 2021 yn tynnu sylw at sut mae effaith y coronafeirws wedi gwaethygu anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes mewn gweithleoedd ac wedi rhoi mwy o amlygrwydd i faterion penodol hyd yn oed, gan gynnwys amodau gwaith mewn gofal cymdeithasol, sicrhau bod gweithleoedd yn ddiogel rhag y coronafeirws ac atal erydu hawliau gweithwyr statudol.

Mae'r materion hyn wedi rhoi mwy o ffocws i'n gwaith a rheidrwydd gweithredol i flaenoriaethu agweddau penodol ar yr agenda a nodir yn adroddiad Gwaith Teg Cymru. Dyna pam yr aethom ati'n gyflym i sefydlu Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, y Fforwm Iechyd a Diogelwch cenedlaethol a chyflawni ein gwaith ochr yn ochr â chyflogwyr ac undebau llafur i godi ymwybyddiaeth o hawliau gweithwyr a llwybrau cymorth.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 19**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau i hyrwyddo gwaith teg ymhlith busnesau, fel rhywbeth a all weithio ochr yn ochr â thyfu eu busnes. Fel rhan o'r ymgyrch hwn, dylai weithredu argymhelliad y Comisiwn Gwaith Teg i sicrhau cymorth a dylanwad cyflogwyr i "wella pa mor amlwg a dymunol yw gwaith teg".***

**Ymateb: Derbyn**

Rydym eisoes wedi creu partneriaeth gyda Chydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, TUC Cymru ac eraill i gyflawni'r ymgyrch hawliau a chyfrifoldebau gweithwyr.

Mae'r ymgyrch hon wedi arwain at sefydlu tudalen we ganolog sy'n cynnwys ffynonellau gwybodaeth i helpu gweithwyr a chyflogwyr ynghyd â gweithgarwch hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru, y prif gyrff sy'n cynrychioli cyflogwyr a'r undebau llafur.

Rydym yn benderfynol o ddefnyddio ein dull partneriaeth gymdeithasol i gyflawni mwy o hyn.  Manteisio ar y cyfle i greu'r ymdeimlad o fudiad cenedlaethol ar gyfer gwaith teg gyda chyflogwyr ac undebau llafur ar flaen y gad.

Mae'n anochel bod heriau'r flwyddyn ddiwethaf wedi rhoi straen ar gapasiti partneriaid cymdeithasol – ac wedi canolbwyntio ar faterion brys ac uniongyrchol y pandemig.  Ond wrth i ni gyd ganolbwyntio ar yr adferiad, rydym wedi ymrwymo'n llwyr i weithio gyda chyflogwyr, undebau llafur ac eraill i hyrwyddo manteision gwaith teg i gyflogwyr ac i weithwyr ac i ledaenu'r arferion gorau.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 20**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu copi o gontract economaidd enghreifftiol i'r Pwyllgor i roi cymorth i graffu arno; gallai hwn fod yn fersiwn wag neu wedi'i olygu i sicrhau na ellir adnabod unrhyw fusnes o'r wybodaeth a ddarperir.***

**Ymateb: Derbyn**

Mae modd darparu copi gwag o'r contract diwygiedig i'r Pwyllgor pan gaiff ei gyflwyno ym mis Mai.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 21**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwaith i ddiweddaru'r contract economaidd yn cael ei ddefnyddio i gryfhau ac ehangu ei gyrhaeddiad, gan gynnwys cyflwyno ystyriaethau o ran cydraddoldeb.***

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y contract diwygiedig yn defnyddio diffiniad y Comisiwn Gwaith Teg o Waith Teg, sydd â chydraddoldeb wrth galon pob un o'i nodweddion. Pwrpas yr adnewyddu oedd cryfhau ac ehangu'r cyrhaeddiad

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 22**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid cymdeithasol a grwpiau sectoraidd i ddatblygu mecanwaith ffurfiol ar gyfer monitro'r modd y cydymffurfir â'r contract economaidd a'r canlyniadau y mae'n eu cyflawni.***

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Nid adnodd cydymffurfio yw'r Contract Economaidd. Fodd bynnag, rydym yn gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol i gyflwyno mecanweithiau i adolygu contractau enghreifftiol ac i ddatblygu dangosyddion safonol clir. Bydd Rheolwyr Perthynas yn gyfrifol am fonitro contractau unigol yn unol â safonau y cytunir arnynt.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 23**

***Mae'r pwyllgor yn argymell***

***Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i ddysgu gwersi o dderbyn rowndiau blaenorol o gymorth busnes ac edrych eto ar bobl na chawsant eu cynorthwyo gan rowndiau blaenorol, gan fynd i'r afael â'r rhwystrau i gael gafael ar gymorth.***

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae swyddogion yn dal i adolygu'r cymorth a ddarperir i fusnesau mewn ymateb i Covid-19 a phan gydnabyddir bod bwlch sy'n fwy na chynnig Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, bydd yn cael ei ystyried.

**Goblygiadau Ariannol –** Goblygiadau ariannol os canfyddir bwlch yn y ddarpariaeth a bod Llywodraeth Cymru yn cynghori cefnogi.

**Argymhelliad 24**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Rhaid i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu cymorth sector-benodol parhaus ar gyfer sectorau sydd wedi cael eu taro'n galed fel manwerthu nad yw'n hanfodol, gwallt a harddwch, twristiaeth a lletygarwch, y celfyddydau a diwylliant. Dylai nodi ei chynigion ar gyfer gwneud hyn yn 2021-22, gan nodi'n glir ble y bydd angen cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU.***

**Ymateb: Derbyn**

Bydd datblygu polisïau a chyngor sy'n ymwneud â chymorth Covid i fusnesau yn parhau i ganolbwyntio ar y sectorau y mae'r cyfyngiadau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth wedi effeithio arnynt.

**Goblygiadau Ariannol -** £200m o gymorth busnes wedi'i neilltuo ar gyfer 2021/22 ond byddai unrhyw beth sy'n ychwanegol at hyn yn arwain at oblygiadau ariannol

**Argymhelliad 25**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth Cymru, fel mater o frys, nodi'r cymorth ariannol sydd ar gael i sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio yn y celfyddydau ar diwydiannau creadigol ar ôl mis Mawrth 2021.***

**Ymateb: Derbyn**

**Goblygiadau Ariannol** – Rydym wedi lansio ail rownd o'r gronfa adferiad diwylliannol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r gronfa a fydd yn darparu hyd at £30m i barhau i gefnogi sector diwylliant amrywiol Cymru drwy'r pandemig parhaus. Cafodd y gwiriwr cymhwysedd ei lansio am 12 hanner dydd ddydd Mercher 24ain Mawrth ac roedd y broes ymgeisio yn agor ar 6ed Ebrill ac yn cau ar 20fed Ebrill.

**Argymhelliad 26**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sectorau twristiaeth a lletygarwch ar strategaeth rheoli cyrchfannau, gan gynnwys datblygu ymgyrchoedd i ddenu pobl i Gymru ar gyfer tymor 2021 mewn ffordd gynaliadwy i fusnesau a chymunedau.***

**Ymateb: Derbyn**

Cafodd cynllun adfer newydd ar gyfer y sector twristiaeth, lletygarwch a digwyddiadau ei gyhoeddi ar 22 Mawrth. *Dewch i Lunio'r Dyfodol:* gweithio mewn partneriaeth i ail-greu dyfodol cydnerth i'r economi ymwelwyr yng Nghymru: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/dewch-i-lunior-dyfodol.pdf

Cafodd y cynllun ei ddatblygu drwy ymgynghori â'r Tasglu Twristiaeth ac mae'n seiliedig ar amrywiaeth eang o sgyrsiau gyda grwpiau, rhanddeiliaid a busnesau eraill ar draws y sector. Mae'r cynllun yn cynnwys fframwaith partneriaeth ar y cyd o

themâu hanfodol a bydd ymyriadau'n cael eu hadeiladu arnynt er mwyn cefnogi busnesau drwy'r adferiad tymor byr i ganolig. Dyma'r 8 thema hanfodol:

1. Cefnogi busnes.
2. Gwerthfawrogi pobl.
3. Ailagor yn ddiogel.
4. Ailadeiladu hyder defnyddwyr.
5. Ysgogi a rheoli'r galw.
6. Datblygu economïau ymwelwyr lleol.
7. Trawsnewid y sector i fod yn fwy cydnerth.
8. Datblygu cynlluniau adfer wedi'u teilwra.

Ac ystyried y llwybr ansicr at adferiad i'r diwydiant, bwriedir i'r cynllun hwn esblygu, a bod yn bont bwysig yn ôl i'r Cynllun Strategol ar gyfer y sector "*Croeso i Gymru:* Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025".

Mae'r cynllun yn argymell ffurfio Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu cynllun gweithredu mwy tactegol a fydd yn cynnwys rhagor o fanylion am yr ymyriadau a'r arweinwyr cyflawni y cytunir arnynt. Rhoddir ystyriaeth bellach i sut bydd y grŵp hwn yn cael ei ffurfio a'r Cylch Gorchwyl cysylltiedig.

**Goblygiadau Ariannol –** Goblygiadau Ariannol: Bydd y costau'n cael eu rheoli o fewn Llinell Wariant 6250 yn y Gyllideb, Twristiaeth a Marchnata.

**Argymhelliad 27**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ganolbwyntio ymdrechion ar wneud y gorau o'r cyfleoedd a gyflwynir gan ymchwil a datblygu yn y sectorau awyrofod a dur, gan gyfleu manylion ei dull yn ei chenhadaeth a chynlluniau adfer.***

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn parhau i gefnogi ein sectorau diwydiannol allweddol fel Awyrofod a Dur ac mae ein Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu newydd yn cynnwys nifer o gamau gweithredu i ddiogelu gweithgynhyrchu yng Nghymru yn y dyfodol, gan ddefnyddio dull gweithredu Llywodraeth gyfan.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r sylfaen gweithgynhyrchu sefydledig yng Nghymru i sicrhau, wrth iddynt addasu i dargedau a dyheadau datgarboneiddio, eu bod yn aros mor gystadleuol â phosibl ar y llwyfan byd-eang.

Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth i'r rhaglen fasnach ar gyfer digwyddiadau tramor, gan gynnwys y rheini ar gyfer awyrofod.

Byddwn yn parhau â'n gwaith gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Llywodraeth y DU i ddatblygu Canolfan Ymchwil Dechnegol Uwch yng Ngogledd Cymru

Byddwn yn parhau i gefnogi'r corff diwydiant Awyrofod Cymru i dynnu sylw at gyfleoedd ar gyfer twf yn y dyfodol ac ar gyfer ymchwil a datblygu.

Byddwn yn parhau i gefnogi'r sector dur a sefydliadau academaidd i gynyddu lefel y cymorth ar gyfer ymchwil a datblygu dur yng Nghymru. Mae nifer o fentrau ar waith, gan gynnwys y Sefydliad Dur a Metelau (SaMI), SUSTAIN a'r FLEXIS.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 28**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth Cymru nodi diweddariad ar ei gwaith parhaus i gynyddu'r manteision economaidd i Gymru sy'n deillio o gaffael cyhoeddus, ar lefel leol yn yr economi sylfaenol, ac ennill cyfran deg i fusnesau Cymru mewn buddsoddiadau seilwaith mawr ar lefel y DU.***

**Ymateb: Derbyn**

Bydd hyn yn rhan o raglen gaffael flaengar yr Economi Sylfaenol.

Ar wahân, byddwn yn mynd ati gyda Llywodraeth y DU i ymchwilio i weld a yw'n bosibl canfod cyfran y buddsoddiadau mawr mewn seilwaith yn y DU a enillir gan fusnesau Cymru.

**Goblygiadau Ariannol –** O fewn gweithgarwch cyfredol y rhaglen sydd wedi'i chyllidebu.

**Argymhelliad 29**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl gan yr Adferiad. Rhaid i Lywodraethau'r dyfodol gadw at yr ymrwymiad hwn.***

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae'r Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi yn nodi bod hyn yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Ni allwn ymateb ar ran gweinyddiaeth yn y dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 30**

***Mae'r pwyllgor yn argymell***

***Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n prif ffrydio cydraddoldeb yn ei pholisïau a'i buddsoddiadau adfer o ddechrau'r broses, a threfnu bod yr wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus.***

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi wedi pennu llwybr ar gyfer economi llesiant sy'n ffyniannus, yn wyrdd ac yn gyfartal. Mae camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran cyfleoedd a chanlyniadau oherwydd hil, rhywedd neu nodweddion gwarchodedig eraill yn hanfodol er mwyn darparu economi llesiant.

Ar gyfer Trafnidiaeth, mae hyn yn rhan o Llwybr Newydd a'r llwybr cydraddoldeb a fydd yn deillio o hynny a fydd yn llifo o'r strategaeth tymor hirach.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 31**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau cynrychiolaeth ac amrywiaeth ar gyrff sy'n gwneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig ag adferiad.***

**Ymateb:**

Mae gwaith yn mynd rhagddo i weithredu'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru. Prif nod y strategaeth yw cynyddu amrywiaeth y rheini a benodir i fyrddau cyrff cyhoeddus a reoleiddir yng Nghymru.

Er mwyn helpu i gyflawni'r nod hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi recriwtio 13 o Uwch Aelodau Paneli Annibynnol o amrywiaeth o gefndiroedd i eistedd ar baneli

recriwtio penodiadau cyhoeddus. Gobeithir y bydd paneli mwy amrywiol yn arwain at wneud penodiadau mwy amrywiol.

Ar ben hynny, rydym wrthi'n datblygu manyleb i gaffael cyfres o adnoddau hyfforddi a datblygu ym maes amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd hyn yn cynnwys 'Rhaglen Bron yn Barod i Arwain' ar gyfer unigolion anabl a Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sydd â rhywfaint o brofiad o arwain ac sydd â diddordeb mewn cael penodiad cyhoeddus. Bydd hefyd yn cynnwys hyfforddiant ar arferion Recriwtio Teg a Hyfforddiant Amrywiaeth a Chynhwysiant cyffredinol ar gyfer holl aelodau Byrddau'r cyrff cyhoeddus a reoleiddir yng Nghymru.

Ar ôl ffurfio'r Llywodraeth newydd, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allanol i ddatblygu cynllun mentora a chysgodi ar gyfer pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gydag aelodau Byrddau cyrff cyhoeddus.

Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau bod gan Gadeiryddion ac aelodau Byrddau cyrff cyhoeddus amcan amrywiaeth a chynhwysiant fel rhan o'u system rheoli perfformiad.

Dylai'r holl gamau gweithredu hyn gyfrannu at gynyddu amrywiaeth aelodau byrddau'r cyrff cyhoeddus a reoleiddir yng Nghymru.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim goblygiadau ychwanegol.

**Argymhelliad 32**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Wrth werthuso ei chymorth ar gyfer adferiad, dylai Llywodraeth Cymru barhau i sicrhau bod data ar gymorth busnes sydd wedi'i ddadansoddi yn ôl rhyw ac ethnigrwydd yn cael ei gyhoeddi a'i werthuso, fel yn achos adroddiad Dirnad Economi Cymru ar ei hymyriadau Covid-19. Dylai hefyd ymhelaethu ar y gwaith hwn trwy gyhoeddi data ar gymorth a ddarperir i fusnesau sydd wedi'i ddadansoddi yn ôl grwpiau pellach sydd â nodweddion gwarchodedig.***

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Byddwn yn archwilio'r holl opsiynau sydd ar gael.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 33**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth i ddatblygu ymgyrchoedd cyfathrebu penodol i ymgysylltu â phobl o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar raglenni cymorth ac adfer COVID.***

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yr un mor ymrwymedig i ymgysylltu â phobl o bob cymuned – yn enwedig y rheini sydd dan anfantais anghymesur oherwydd effeithiau COVID-19. Byddwn yn parhau i weithio i ymgysylltu â phob grŵp er mwyn eu cynnwys yn llawn yn y rhaglen gymorth barhaus yn ystod ac ar ôl y pandemig.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim oherwydd byddai'r dyraniadau cyllidebol arferol yn talu amdanynt.

**Argymhelliad 34**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai grŵp cynghorol Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, yn debyg i'r grŵp a sefydlwyd gan Brif Weinidog Cymru i ymateb i COVID-19, weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar adferiad tymor hir ar gyfer yr economi, sgiliau a thrafnidiaeth.***

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi yn egluro y byddwn yn gweithio gyda chymunedau lleiafrifoedd ethnig i fynd i'r afael â materion cyflogaeth sy'n gysylltiedig ag effaith anghymesur y pandemig ochr yn ochr â'r anfantais gynhenid a achosir gan hiliaeth strwythurol a systemig.

Mae Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Cymru, y mae ymgynghoriad yn ei gylch tan 17 Mehefin, yn nodi'r nod o wella'r ymgysylltiad â'r gymuned lleiafrifoedd ethnig, yn enwedig ar gyfer entrepreneuriaid.

Byddwn yn adolygu ein gweithgareddau marchnata ac ymgysylltu i ymestyn ein cyrhaeddiad i grwpiau ac unigolion Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a bod entrepreneuriaid Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu hadlewyrchu'n dda yn ein cyhoeddusrwydd.

O ran Trafnidiaeth, bydd panel hygyrchedd trafnidiaeth yn cael ei ddatblygu gan TrC ar ran Llywodraeth Cymru a fydd yn ehangu'r grŵp presennol i gynnwys pawb sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 35**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylid cyflawni argymhelliad y Grŵp Cynghorol Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i sefydlu Uned Anghyfartaledd Hiliol yn Llywodraeth Cymru fel mater o flaenoriaeth.***

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad adroddiad Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol Pobl dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd ethnig COVID-19 i ystyried pa mor ymarferol fyddai sefydlu Uned Gwahaniaethu ar sail Hil.

Mae ymchwil yn mynd rhagddo i gwmpasu ac i archwilio anghenion rhanddeiliaid ar gyfer Uned tystiolaeth o anghydraddoldebau Hiliol, Uned tystiolaeth o Gydraddoldeb ac Uned tystiolaeth o Anabledd yng Nghymru. Mae'r gwaith maes ar gyfer y gwaith cwmpasu wedi cael ei gwblhau, ac roedd yn cynnwys cyfres o gyfweliadau, grwpiau ffocws a gweithdai.

Bydd papur opsiynau'n cael ei gynhyrchu yn dilyn y gwaith cwmpasu a bydd yn rhoi amlinelliad cychwynnol o'r strwythur a'r opsiynau o ran adnoddau a'r swyddogaeth er mwyn cyfrannu at roi'r Uned(au) ar waith. Ar ôl ffurfio'r llywodraeth newydd, bydd y papur opsiynau'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet fel blaenoriaeth.

**Goblygiadau Ariannol -** Cytunwyd ar y gyllideb ar gyfer Blwyddyn Ariannol 21/22 i gwmpasu ac i sefydlu Uned Data a Thystiolaeth Cydraddoldeb ac Uned Gwahaniaethu ar sail Hil (hyd at £809,000)

Bydd y dyraniad hwn yn cefnogi'r gwaith o sefydlu'r uned(au) yn 2021-22 yn dilyn canlyniad yr ymarfer cwmpasu a fydd yn cael ei gynnal ddechrau 2021.

**Argymhelliad 36**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys ymrwymiadau i hygyrchedd (yn yr amgylchedd adeiledig a thrwy bolisi a gweithdrefnau sefydliad) fel maen prawf ar gyfer cael cyllid adfer, a monitro'r modd y mae busnesau'n cydymfurfio â'r rhain.***

**Ymateb: Gwrthod**

Mae hygyrchedd yn ddarpariaeth statudol y byddai angen i fusnesau gydymffurfio â hi.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 37**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth Cymru ymateb yn gyhoeddus i'r argymhellion ym mhapur briffio Engage to Change "Swyddi i bobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth - Rôl y GIG" a dylai ddatblygu cynllun cyflogaeth anableddau dysgu ac awtistiaeth ar gyfer sector cyhoeddus Cymru yn unol â'r cynllun ar gyfer y GIG a nodir yn y papur briffio.***

**Ymateb: Derbyn**

Ar hyn o bryd mae swyddogion yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gwmpasu prosiect peilot i wella darpariaeth cyflogadwyedd ar gyfer pobl sydd â nam dysgu a/neu awtistiaeth. Mae hyn yn gysylltiedig â chynllun peilot 'prawf o gysyniad' i asesu effaith cynyddu'r adnoddau hyfforddwyr swyddi sydd ar gael i grŵp bach o ddarparwyr prentisiaethau.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 38**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Mae angen i Lywodraeth Cymru gadarnhau'r enillion i bobl anabl sy'n deillio o weithio gartref. Fodd bynnag, rhaid iddi sicrhau bod gweithio o bell yn cefnogi pobl anabl ac nad yw'n eu heithrio ymhellach.***

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r gwaith hwn eisoes yn mynd rhagddo ac mae'r ystyriaethau hyn yn rhan o'n Hasesiad Effaith Integredig. Rydym hefyd yn cyhoeddi dogfennau canllawiau ar Busnes Cymru.

Fel maes polisi newydd, bydd angen monitro datblygiadau'n ofalus ar gyfer pob effaith a newid mewn tueddiadau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn dychwelyd at Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn y tymor gweinyddol newydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 39**

***Mae'r pwyllgor yn argymell***

***Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried y rhywiau'n ofalus wrth greu cynlluniau adfer a dyrannu cyllid adfer er mwyn osgoi unrhyw ragfarn ddiarwybod tuag at sectorau lle mae'r mwyafrif yn ddynion. Fel rhan o hyn dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio cyllid ailadeiladu i:***

▪ ***annog menywod i ymgymryd â mwy o rolau yn y sector adeiladu, yn enwedig y swyddi hynny a grëir gan fuddsoddiadau mewn seilwaith gwyrdd a***

▪ ***chreu swyddi newydd mewn sectorau lle mae mwyafrif y gweithlu ar hyn o bryd yn cynnwys menywod fel mewn gofal a gofal plant***

**Ymateb: Derbyn**

Ein nod yw creu unigolion cadarn sy'n meddu ar y sgiliau, y brwdfrydedd, yr egni a'r creadigrwydd i gyflawni eu potensial mewn byd sy'n newid yn gyflym, lle nad yw gallu, cefndir, rhywedd nac ethnigrwydd yn rhwystr i sicrhau cyflogaeth deg.

Rydym wedi ymrwymo'n gadarn o hyd i gefnogi pobl i gael gafael ar swyddi, hyfforddiant, addysg uwch ac addysg bellach er mwyn cael a chadw cyflogaeth deg neu hunangyflogaeth, gan sicrhau dilyniant a chynnydd dysgwyr yn y farchnad lafur yn ystod y cyfnod tyngedfennol hwn.

Byddwn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd a chefnogi'r rheini mae argyfwng COVID-19 wedi cael yr effaith fwyaf arnynt – yn enwedig menywod, pobl ifanc, y rheini sydd mewn swyddi cyflog isel ac ansicr, cymunedau lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 40**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***O ystyried y cyfraddau uwch nag erioed o fenywod sy'n colli swyddi ledled y DU yn ystod y pandemig, a bod y gyfradd hon yn llawer uwch nag yn ystod dirwasgiad 2008, dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei rhaglenni cymorth colli swyddi a chyngor gyrfaoedd i sicrhau bod ganddynt adnoddau ac offer llawn i roi lefel uwch o gymorth wedi'i deilwra i fenywod.***

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Cymru'n Gweithio, sydd wedi cael ei gynllunio a'i weithredu i gefnogi pobl ledled Cymru. Mae'r gwasanaeth cenedlaethol rhad ac am ddim hwn, sy'n cael ei ddarparu gan Gyrfa Cymru, yn cynnig ymateb cyflym i ddiswyddiadau ar raddfa fawr ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau, gan anfon staff i'r safle cyn gynted â'i fod yn cael gwybod am y sefyllfa, i gefnogi pobl sydd wedi cael rhybudd diswyddo. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys cyflwyniadau i'r gweithlu ar y safle ac ar adeg sy'n addas iddyn nhw, cyfweliadau un-i-un a chlinigau cyfarwyddyd, cymorth gyda cheisiadau am ReAct a ffynonellau cyllid eraill, a chymorth arall dros y ffôn, drwy fideo neu wyneb-yn-wyneb pan fydd y cyfyngiadau'n caniatáu hynny. Mae Cymru'n Gweithio eisoes yn gweithio'n agos gydag asiantaethau megis Chwarae Teg ac yn sicrhau bod eu holl farchnata yn niwtral o ran y rhywiau.

Mae Gyrfa Cymru yn uwchsgilio ei gynghorwyr yn rheolaidd ar farchnadoedd llafur sy'n datblygu ac yn esblygu ac mae'n cynhyrchu bwletinau mewnol sy'n cynnwys Gwybodaeth am y Farchnad Lafur bob chwarter er mwyn uwchsgilio ei staff

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 41**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n gyhoeddus sut y bydd yn annog pobl i achub ar gyfleoedd hyfforddi a fydd yn eu harwain at swyddi mewn sectorau lle mae pobl fel hwy yn cael eu tangynrychioli.***

**Ymateb: Derbyn**

Mae Gyrfa Cymru a gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau i helpu pobl i ddod o hyd i waith a symud ymlaen yn y gwaith, gan gynnwys:

- Ffeiriau Swyddi Ar-lein sy'n targedu sectorau â blaenoriaeth yn unol â Chynlluniau unigol Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol;
- Bwletinau Swyddi Gwag Wythnosol;
- Sesiynau grŵp mewn ysgolion a chyfweliadau sy'n canolbwyntio ar ymwybyddiaeth o gyfleoedd a dewisiadau i bobl ifanc 16 oed;
- Deunyddiau marchnata penodol Cymru'n Gweithio, gan gynnwys trafodaethau byw a sesiynau holi ac ateb am amrywiaeth a chynhwysiant, a phanel o bobl ifanc o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn trafod eu profiadau.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 42**

***Mae'r pwyllgor yn argymell***

***Rhaid i atal 'cenhedlaeth Covid' sydd wedi'i chreithio fod yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer adferiad, gyda chynlluniau cadarn i warantu hyfforddiant a phrofiad gwaith o ansawdd da ar gyfer pobl ifanc.***

**Ymateb: Derbyn**

Ar hyn o bryd, ysgolion sy'n gyfrifol am ddarparu profiad gwaith i ddisgyblion dan 16 oed. Mae gan Gyrfa Cymru hefyd gronfa o adnoddau digidol sy'n cael eu defnyddio yn lle Profiad Gwaith ee teithiau 'pro' o amgylch safleoedd cyflogwyr sy'n cael eu cynnig i ysgolion er mwyn eu defnyddio gyda disgyblion.
Mae Gyrfa Cymru yn cynnig Profiad Gwaith wedi'i Deilwra i bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio neu ddod yn NET drwy dair rhaglen ranbarthol sy'n cael eu hariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (Cynnydd, I2A a TRAC). Dylid nodi y bydd y rhain yn dod i ben yn 2022/3 ac nad oes disgwyl rhagor o gyllid ar hyn o bryd.

Ar ben hynny, mae'r Gyfnewidfa Addysg Busnes yn gronfa ddata o gyflogwyr sy'n fodlon ac yn gallu cynnig amrywiaeth o weithgareddau cyfoethogi i ddisgyblion ysgol

ym maes cyflogadwyedd – ee ffug gyfweliadau, dosbarthiadau meistr, ymweliadau â safleoedd cyflogwyr ac ati. Mae'r rhain ar gael i ysgolion er mwyn iddynt allu llunio pecyn o gefnogaeth i'w disgyblion pan na fydd profiad gwaith ar gael.

Mae hyfforddeiaethau ar gael i bobl ifanc 16-18 oed yng Nghymru nad ydynt yn ymwneud ag addysg na chyflogaeth ôl-16. Prif amcan y rhaglen yw arfogi pobl â'r sgiliau, y cymwysterau a'r profiad gwaith i'w galluogi i symud ymlaen i ddysgu ar lefel uwch neu i gyflogaeth, gan gynnwys Prentisiaeth.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru hefyd yn caffael rhaglen gyflogadwyedd newydd ar gyfer pobl ifanc, Twf Swyddi Cymru +, a fydd yn allweddol i helpu pobl ifanc i fynd i fyd gwaith. Bydd y rhaglen yn cynnig dull gweithredu cyfannol at gymorth cyflogadwyedd i bobl ifanc, a bydd yn allweddol, nid yn unig o ran helpu i ailadeiladu'r economi ar y cyfnod anodd hwn drwy gefnogi cyflogwyr i gyflogi pobl ifanc, ond hefyd o ran sicrhau bod y bobl ifanc hynny'n dal i gael cyfleoedd hanfodol i hyfforddi a chael profiad o fyd gwaith.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 43**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys i asesu'r posibilrwydd o gyflwyno Gwarant Cyfle Ieuenctid ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed yng Nghymru fel rhan o'i strategaeth a'i rhaglenni cymorth i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc.***

**Ymateb: Derbyn**

**Goblygiadau Ariannol –** Mae'r llywodraeth hon wedi darparu cyllid a chymorth ychwanegol drwy'r Ymrwymiad COVID i fynd i'r afael â'r angen brys i gryfhau cymorth rheng flaen, cyngor, a chymorth hyfforddiant a chyflogadwyedd i bobl ifanc drwy gydol y pandemig. Wrth symud ymlaen, rydym yn cydnabod y bydd angen inni ganolbwyntio'n llwyr ar gefnogi pobl ifanc sy'n symud i addysg bellach, i gyflogaeth neu i entrepreneuriaeth, a dod o hyd i ffyrdd newydd o gyrraedd y rheini yr effeithwyr arnynt fwyaf er mwyn gwella eu cyflogadwyedd.

**Argymhelliad 44**

*Mae'r pwyllgor yn argymell*

*Dylai Llywodraeth Cymru wella ei gwaith strategol gyda chymdeithas ddinesig Cymru a phobl ifanc eu hunain wrth ddatblygu ei dull polisi a'i strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc.*

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Nod y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, a gyhoeddwyd yn 2013, yw lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Roedd cynrychiolwyr o ysgolion, sefydliadau addysg bellach, y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol a mudiadau trydydd sector eraill ymysg y rheini a gafodd wahoddiad, ym mis Chwefror 2021, i gymryd rhan mewn gweithdai ymgynghori, ar y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Bydd ymgynghoriad wedi'i anelu at bobl ifanc yn cael ei gynnal ar ôl 6 Mai. Bydd adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer diweddaru'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 45**

***Mae'r pwyllgor yn argymell***

***Er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth i atal 'cenhedlaeth Covid' sydd wedi'i chreithio rhaid i Lywodraeth Cymru greu strategaeth:***

- ***Sy'n cynnwys ymyriadau wedi'u targedu gyda'r nod o gefnogi cyflogadwyedd y carfannau o bobl sy'n gadael addysg yn ystod y pandemig ac yn fuan wedi hynny.***

- ***Sy'n defnyddio dull sy'n mynd y tu hwnt i fesurau cyflogadwyedd i feithrin hyder a chydnerthedd pobl ifanc a mynd i'r afael â'r materion strwythurol sylfaenol.***

- ***Sy'n sicrhau bod cynlluniau newydd sydd wedi'u bwriadu i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc yn atal y patrwm mynd a dod lle mae pobl ifanc yn symud i mewn ac allan o amryw gynlluniau cymorth, gan gynnwys trwy sicrhau bod cyrsiau a lleoliadau yn ddigon hir, a'u bod yn cefnogi dilyniant yn llawn.***

▪ ***Y mae'n rhaid ei llunio ar y cyd gyda phobl ifanc 16-25 oed, gan gynnwys y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur, ac y mae'n rhaid iddi gynnwys dangosyddion a chanlyniadau y gellir eu mesur yn glir, gyda phobl ifanc hefyd yn ymwneud â'r mecanweithiau atebolrwydd.***

- ***Sy'n tynnu ar arfer gorau o'r DU a'r tu hwnt.***

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y pandemig i'n helpu i ddeall effeithiolrwydd ymyriadau, ac mae wedi ymgorffori tystiolaeth, ymchwil a gwersi a ddysgwyd o werthusiadau o raglenni blaenorol i helpu i lywio'r gwaith o ddylunio ymyriadau cymorth cyflogadwyedd, yn fwyaf diweddar wrth gynllunio rhaglen newydd Twf Swyddi Cymru +.

Mae Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio yn cefnogi pobl ifanc gyda'u cyflogadwyedd ac yn hwyluso pontio cadarnhaol o addysg i Addysg a Hyfforddiant ym maes Cyflogaeth. Mae cynghorwyr gyrfaoedd mewn ysgolion a cholegau yn gallu atgyfeirio pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol at sesiynau Hyfforddiant Cyflogadwyedd ar-lein sy'n cael eu darparu gan Cymru'n Gweithio. Gall y gefnogaeth hon gynnwys ffug gyfweliadau, sgiliau chwilio am waith a sgiliau ymgeisio am swydd.

Mae cynghorwyr gyrfaoedd mewn ysgolion a cholegau yn gallu atgyfeirio at ddysgu seiliedig ar waith neu brentisiaethau yn ystod tymor yr haf (a chyn i fyfyrwyr adael yr ysgol). Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gallu symud o un ddarpariaeth i'r llall heb ymddieithrio yn y cyfnod interim.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 46**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chanolfan Byd Gwaith i sicrhau bod y cynllun Kickstart yn cynnig cymaint o gyfleoedd o ansawdd da â phosibl i bobl ifanc yng Nghymru.***

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau bod y cynllun Kickstart yn integreiddio ac yn ategu rhaglenni cymorth cyflogadwyedd presennol ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys Hyfforddeiaethau a Phrentisiaethau, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y gall profiad gwaith cyflogedig eu cynnig. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gefnogi Rhwydwaith Kickstart Strategol Cymru.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 47**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod ganddi, a'i bod yn cyhoeddi, darlun clir o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc y gellir hefyd ei gymharu'n uniongyrchol â gwledydd eraill y DU ac Ewrop.***

**Ymateb: Derbyn**

Mae gan Lywodraeth Cymru ddarlun clir o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc, wrth gymharu â'r DU. Daw'r wybodaeth hon o ddata chwarterol yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a gyhoeddir yn rheolaidd yn Nhrosolwg Llywodraeth Cymru o'r farchnad lafur ac mae'r data sylfaenol ar gael ar StatsCymru

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 48**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru wella'r modd yr eir ati i hyrwyddo cyrsiau hyfforddi i bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig. I wneud hyn rhaid iddynt weithio gyda phobl ifanc o'r cymunedau hynny.***

**Ymateb: Derbyn**

Mae gwasanaethau Gyrfa Cymru yn gynnig cyffredinol. Mewn ysgolion (o fis Medi 2021 ymlaen), bydd Gyrfa Cymru yn cynnig gwasanaeth wedi'i dargedu a'i wahaniaethu i bobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â phontio'n gadarnhaol pan fyddant yn 16 oed. Mae'r gwasanaeth hwn yn canolbwyntio ar y bobl ifanc hynny sy'n debygol o ymddangos yn anghymesur yn y ffigurau NEET. Bydd hyn yn cynnwys rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig, gofalwyr ifanc, plant sy'n derbyn gofal, pobl ifanc sy'n cael cinio ysgol am ddim, y rheini sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae gan wasanaeth Cymru'n Gweithio hefyd gynnig cyffredinol ac mae'n wasanaeth sy'n cael ei arwain gan y galw. Mae Cymru'n Gweithio yn casglu gwybodaeth am grwpiau lleiafrifoedd ethnig fel nodwedd warchodedig er mwyn iddynt allu gwneud yn siŵr eu bod yn cyrraedd yr adran hon o'r gymuned. Roedd y gwasanaeth wedi blaenoriaethu'r sector pobl Ddu, Asiaidd, lleiafrifoedd ethnig a'r sector Anabledd gyda gwaith marchnata a sylw ychwanegol yn 2021-22, ac mae eisoes wedi gwneud cysylltiadau ag amrywiaeth o asiantaethau lleiafrifoedd ethnig a bydd yn parhau i ehangu hyn dros y flwyddyn i ddod, gan gynnwys:- Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig, Canolfan Oasis (cymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches), Diverse Cymru a Chyngor Ffoaduriaid Cymru.

Mae cefnogaeth cysylltu â chyflogwyr cymunedol ar gael drwy Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy i helpu i baru cyfranogwyr â chyfleoedd yn y farchnad lafur leol, hyrwyddo hunangyflogaeth a ffyrdd newydd o weithio. Mae hefyd yn darparu gwasanaethau cefnogi a mentora un i un sydd wedi'u teilwra ac yn fwy dwys, drwy weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a'r trydydd sector.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 49**

***Mae'r pwyllgor yn argymell***

***Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chydweithwyr a chyflogwyr i gynorthwyo pobl â nodweddion gwarchodedig i bontio rhwng hyfforddiant a gwaith er mwyn sicrhau eu bod yn gallu defnyddio eu cymwysterau'n llwyr.***

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn parhau i gynnal Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) – fframwaith hollgynhwysol sy'n cydnabod cymwysterau ar draws pob sector a lefel o'r system addysg, ni waeth ble mae'r dysgu'n cael ei wneud a chan bwy. Mae gan FfCChC gysylltiadau â fframweithiau cymwysterau gweinyddiaethau eraill yn y DU ac mae'n cyfeirio at y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd (FfCE). Mae hyn yn sicrhau bod modd cydnabod cymwysterau a'u cymharu'n eang, sy'n golygu bod modd i ddysgwyr a gweithwyr gludo a throsglwyddo cymwysterau.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 50**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun adfer ar gyfer bysiau a rheilffyrdd sy'n cynnwys:***

- ***y gwaith y mae ei angen i ddeall ac ymateb i anghenion teithio teithwyr ar ôl y pandemig; cynlluniau wedi'u blaenoriaethu ar gyfer strwythurau***

***gwasanaethau, prisiau a thocynnau newydd; a chefnogi gweithgarwch hyrwyddo a marchnata.***

**Ymateb: Derbyn**

Drwy gydol pandemig COVID-19, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r diwydiant bysiau i ddal ati i redeg gwasanaethau hanfodol. Bydd y cymorth hwn yn parhau wrth inni gymryd y camau cyntaf allan o'r cyfyngiadau symud ac wrth i'r galw ddychwelyd am drafnidiaeth gyhoeddus. Mae ein 'Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau (BES) 2' yn rhan allweddol o'n cymorth wrth inni symud ymlaen. Mae'n gytundeb rhwng gweithredwyr bysiau, awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru ac mae'n sail ar gyfer gwaith partneriaeth i ddarparu gwasanaethau gwell. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu strategaeth bysiau i ymgynghori arni yn nes ymlaen eleni. Bydd yn nodi sut bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid a'n partneriaid allweddol i sicrhau gwelliant hirdymor a pharhaus mewn gwasanaethau bysiau yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar anghenion teithwyr. O ran rheilffyrdd, bydd TrC yn cyflwyno cynllun dychwelyd i gwsmeriaid dros y 12-18 mis nesaf i sicrhau bod teithwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus ar y trenau.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim. Bydd y costau i gynllunio'r adferiad ar gyfer y rheilffyrdd a'r bysiau'n cael eu cynnwys o gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 51**

*Mae'r pwyllgor yn argymell*

*Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi gwerthusiad o effeithiolrwydd ymyriadau teithio lleol tymor byr a roddwyd ar waith mewn ymateb i Covid-19. Dylai'r gwerthusiad amlinellu'r gwersi a ddysgwyd, astudiaethau achos ac arfer gorau i'w rannu ar draws awdurdodau lleol.*

**Ymateb: Derbyn**

**Goblygiadau Ariannol –** Ar ôl i Lywodraeth Cymru dderbyn yr hawliadau terfynol am y cyllid grant ym mis Ebrill 2021, bydd gwerthusiad yn cael ei gynnal ar sail tystiolaeth feintiol ac ansoddol gan awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill. Bydd hyn yn cynnwys paratoi astudiaethau achos a fydd yn cael eu rhannu â phob awdurdod lleol.

**Argymhelliad 52**

***Mae'r pwyllgor yn argymell***

***Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cwmpas yr opsiynau i roi mwy o sicrwydd cyllid tymor hir i awdurdodau lleol ar gyfer buddsoddi mewn trafnidiaeth, yn debyg i'r hyn a gynigir i Trafnidiaeth Cymru yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Rhaid ystyried yr angen am gyllid refeniw a chyfalaf. Os nad yw'r cyllid tymor hwy hwn yn bosibl, rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir pam fod y dull ar gyfer llywodraeth leol yn wahanol i'r dull ar gyfer Trafnidiaeth Cymru a'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth.***

**Ymateb: Derbyn**

**Goblygiadau Ariannol –** Cydnabyddir manteision sicrwydd cyllid hirdymor. Oherwydd setliad cyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru, nid oes modd cyflawni ymrwymiad llwyr o 5 mlynedd i refeniw a chyfalaf ar gyfer trafnidiaeth. Ein bwriad gyda Trafnidiaeth Cymru yw cyhoeddi Datganiad o'r Cronfeydd Sydd Ar Gael a fydd yn nodi faint mae modd ei wario ar wasanaethau, cynnal a chadw a phrosiectau trafnidiaeth yn ystod cyfnod 5 mlynedd y cynllun cyflawni cyntaf (neu WCP1).

Bydd y Datganiad o'r Cronfeydd Sydd Ar Gael yn ffenestr cynllunio ariannol dreigl, yn hytrach nag ymrwymiad cyllid wedi'i warantu. Byddwn yn ymchwilio gyda meysydd gwasanaeth eraill yn Llywodraeth Cymru sy'n darparu grantiau i awdurdodau lleol, a fyddai modd defnyddio dull gweithredu tebyg i Ddatganiad o'r Cronfeydd Sydd Ar Gael gyda grantiau awdurdodau lleol ynteu a yw methodoleg arall yn bosibl.

**Argymhelliad 53**

**Mae'r pwyllgor yn argymell**

***Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r mecanweithiau y bydd yn eu defnyddio i sicrhau consensws trawsbleidiol ar flaenoriaethau ar gyfer y buddsoddiadau 'tocynnau mawr' mewn seilwaith trafnidiaeth a gweithrediadau sy'n angenrheidiol ar gyfer adferiad.***

**Ymateb: Derbyn**

Yn amodol ar ddewisiadau Llywodraeth newydd.

**Goblygiadau Ariannol –** Bydd y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol yn nodi'r buddsoddiadau "mawr" mewn Trafnidiaeth. Y bwriad yw ceisio cymeradwyaeth y Senedd i'r Cynllun